**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal** **EOC-05-02(p2)**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 26 Mehefin 2002 |
| Amser: | 9.30am |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3 |

Teitl: **CODI POB LLAIS - Y GWAITH A WNAED HYD YN HYN AR Y CYNLLUN GWEITHREDU**

**Diben**

1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal am hynt y gwaith a wnaed hyd yn hyn ar gynllun gweithredu'r Ysgrifennydd Parhaol i fwrw ymlaen ag argymhellion yr adroddiad 'Codi Pob Llais' i gael gwared ar arferion gwaith a gweithdrefnau a allai wahaniaethu yn erbyn pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

**Crynodeb**

2. Ceir adroddiad yn y papur hwn am y broses ymgynghori a gynhaliwyd ar y strategaeth ddrafft ar gyfer Recriwtio a Lleoli Staff, a cheir crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law, lle’r amlygir y prif faterion a wyntyllwyd. Rhoddir adroddiad hefyd am y datblygiadau o ran cynllun gweithredu'r Ysgrifennydd Parhaol ar gyfer rhoi'r argymhellion yn yr adroddiad 'Codi Pob Llais' ar waith.

**Amseru**

3. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr, addawodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'n cyflwyno adroddiad ar hynt y gwaith ar y cynllun gweithredu bob chwe mis. Mae'r papur hwn yn gwireddu'r addewid hwnnw.

**Y Cefndir**

4. Cyflwynwyd yr adroddiad 'Codi Pob Llais' gan yr awdur, Roger McKenzie, yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 21 Mawrth 2001. Yn y cyfarfod hwnnw, addawodd yr Ysgrifennydd Parhaol lunio cynllun gweithredu i'w ystyried gan y Pwyllgor cyn pen tri mis, gan nodi'r cynigion ar gyfer gweithredu pob un o'r argymhellion yn yr adroddiad Codi Pob Llais. Sefydlwyd grwp cyflawni, o dan gadeiryddiaeth Roger McKenzie, i lunio'r cynllun gweithredu. Cyflwynwyd y cynllun gweithredu hwnnw er gwybodaeth i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2001. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn anelu at sicrhau bod y Cynulliad yn batrwm o gyflogwr o safbwynt cyfle cyfartal, a'r adroddiad Codi Pob Llais fydd un o'r prif ffyrdd o fynd â'r maen i'r wal yn hyn o beth.

5. Ers mis Gorffennaf 2001, mae grwp llywio, o dan gadeiryddiaeth Peter Gregory, wedi bod yn goruchwylio'r gwaith ar y cynllun gweithredu. Amgaeir fersiwn diweddaraf y cynllun gweithredu yn **Atodiad A**, ac mae'n dangos fod cynnydd wedi'i wneud ar bob argymhelliad. Wrth iddynt gael eu datblygu, mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y camau penodol ar gyfer gweithredu'r argymhellion yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol perthnasol.

**Y Sefyllfa Bresennol**

6. O'r 43 o argymhellion yn yr adroddiad, gweithredwyd 17 eisoes. Roedd nifer ohonynt yn rhan o arferion y Cynulliad ers peth amser. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar 24 arall . Ni weithredwyd 2 ohonynt hyd yn hyn gan eu bod yn ymwneud ag archwilio'r argymhellion eraill unwaith y byddant yn cael eu gweithredu.

**Y Strategaeth Ddrafft ar Recriwtio a Lleoli Staff**

7. Cyflwynwyd y strategaeth ddrafft ar gyfer recriwtio a lleoli staff ger bron y Pwyllgor yng nghyfarfod mis Ionawr, ac fe'i cyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori ym mis Mawrth 2002. Y prif rai yr ymgynghorwyd â hwy oedd staff y Cynulliad Cenedlaethol. Aed ati i ddadansoddi eu sylwadau hwy a cheir crynodeb yn **Atodiadau B ac C**. At hynny, estynnwyd gwahoddiad i'r tri chomisiwn cydraddoldeb yng Nghymru, Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil a Roger McKenzie gyflwyno sylwadau, a cheir crynodeb ohonynt yn **Atodiad D**.

8. At ei gilydd, croesawyd y dull cyffredinol o weithredu a gynigir yn y strategaeth mewn perthynas â symud tuag at recriwtio'n fwy agored ar gyfer swyddi penodol. Cydnabuwyd bod angen i'r Cynulliad gynrychioli'r gymuned yr oedd yn ei gwasanaethu yn well, ac yn benodol, bod angen creu mwy o gyfleoedd i grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ymuno â'r Cynulliad fel gweithwyr cyflog. Serch hynny, codwyd nifer o faterion. Dyma'r rhai allweddol:

- **Effaith ar ddatblygiad gyrfa staff y Cynulliad, a'u gallu i symud ymlaen o fewn y gwasanaeth, gan nad oes cyfle bellach i symud ymlaen yn fewnol.**

Roedd mwyafrif y rheini a ymatebodd yn pryderu am yr effaith ar forâl y staff o ganlyniad i'r ffaith nad oedd cyfle bellach i symud ymlaen yn fewnol. Dywedodd nifer eu bod wedi ymuno â'r gwasanaeth sifil er mwy dilyn gyrfa, a'u bod yn disgwyl cael symud ymlaen o'i fewn pe baent yn datblygu'r cymwyseddau a'r sgiliau angenrheidiol. Roedd y Comisiwn Cyfle Cyfartal a Chomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil hefyd yn rhannu'r pryderon hyn. Cafwyd nifer o awgrymiadau ar sut y gellid sichrau bod staff yn symud yn eu blaenau mewn ffordd fwy agored, ond yr awgrym a welwyd amlaf oedd y dylid sefydlu proses tri cham wrth lenwi swyddi gwag:

1. hysbysebu'r swydd wag ar yr un raddfa o fewn y Cynulliad;
2. hysbysebu'r swydd wag gan roi cyfle i staff gael dyrchafiad o fewn y Cynulliad;
3. hysbysebu'r swydd wag yn allanol.

- **Y broses asesu, ac yn benodol, defnyddio canolfannau asesu.**

Ar y cyfan, roedd y staff yn cytuno â'r broses asesu tri cham er bod cryn wahaniaeth barn am effeithiolrwydd pob cam. Y brif neges oedd yr angen i wneud yn siwr bod pob ymgeisydd (mewnol ac allanol) yn cael canllawiau clir am y broses, a lle bo hynny'n briodol, yn cael cynnig hyfforddiant. Teimlai'r rhan fwyaf y dylai cyfleoedd hyfforddi fod ar gael i staff mewnol ac yn y gymuned ehangach er mwyn rhoi cyfle teg i bawb mewn cystadlaethau agored. Mynegwyd pryder hefyd am degwch y canolfannau asesu, ac am yr angen i sicrhau eu bod yn cael eu profi o ran cydraddoldeb a'u bod yn berthnasol i gymwyseddau'r band a'r swydd berthnasol.

9. Mae agwedd gadarnhaol y staff at yr ymgynghori am y strategaeth wedi creu cryn argraff ar yr Ysgrifennydd Parhaol, a bydd yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd a'r awgrymiadau a wnaed wrth roi'r strategaeth er ei gwedd derfynol. Cynhelir trafodaethau manwl gyda'r Undeau Llafur am y strategaeth cyn mynd ati i wneud hynny.

10. Er mwyn rhoi amcan o'r gweithgareddau lleoli a recriwtio staff y mae'r Cynulliad yn ymgymryd â hwy ar hyn o bryd, rhoddir manylion symudiadau ymhlith y staff hyd at fis Mai 2002 yn **Atodiadau E ac F**. Nodir hefyd fanylion am y nifer o ymarferion recriwtio a gynhaliwyd hyd yn hyn ar gyfer swyddi penodol yn ystod y flwyddyn 2001-2002. Cynhaliwyd nifer o fyrddau dyrchafu ar gyfer swyddi penodol yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf pan oedd yn amlwg bod yr arbenigedd ar gael o fewn y Cynulliad ac y gellid denu ymgeiswyr credadwy.

**Yr Amserlen ar gyfer Gweithredu**

11. Eir ati i lunio Cynllun Gweithredu fel rhan o'r trafodaethau hyn, a'r dyddiad targed ar gyfer cyflwyno'r strategaeth fydd mis Hydref 2002.

**Cydymffurfio**

12. Nid oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb mewn perthynas â'r papur hwn.

**Themâu trawsbynciol**

13. Trwy roi argymhellion yr adroddiad Codi Pob Llais ar waith, bydd y Cynulliad yn dangos unwaith eto ei ymrwymiad i gyfle cyfartal.

**Camau i'w Cymryd**

14. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi hynt cynllun gweithredu'r Ysgrifennydd Parhaol a chanlyniadau'r ymgynghori am y strategaeth ddrafft ar recriwtio a lleoli staff.

**Enw Cyswllt - Delyth Thomas**

Atodiad A - Y Diweddaraf am y Cynllun Gweithredu ar gyfer Codi Pob Llais (Matrics)

Atodiad B - Dadansoddiad o'r holiadur - Crynodeb Meintiol

Atodiad C - Dadansoddiad o'r holiadur - Crynodeb Ansoddol

Atodiad D - Crynodeb o'r sylwadau a wnaed gan gyrff allanol yr ymgynghorwyd â hwy

Atodiad E - Y Cynulliad Cenedlaethol - Swyddi gwag a Lenwyd - Rhwng mis Hydref 2001 a mis Mai 2002

Atodiad F - Recriwtio - swyddi penodol a hysbysebwyd yn agored hyd yn hyn yn ystod 2001-02.